


# EICH ARDAL CHI. BETH SY'N BWYSIG?

ARDAL  
**CAERNARFON**



# ASESIAD O LESIANT GWYNEDD A MÔN

EISIAU  
DWEUD  
EICH  
DWEUD?

Mae'r ddeddf newydd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.


Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaeth iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned – yr hyn sy'n bwysig i chi, beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella. **Bydd cyfle i chi leisio eich barn trwy fynychu un o'r sesiynau galw heibio lleol neu mewn holiadur ar-lein. Mae mwy o wybodaeth a dyddiad pob sesiwn leol i weld ar [www.LlesiantGwyneddaMon.org](http://www.LlesiantGwyneddaMon.org).**

Bydd y cyfnod ymgynghori yma yn dod i ben ar y 31<sup>ain</sup> o Ragfyr 2016. Y gobaith yw y bydd gan y Bwrdd ddarlun cliriach wedyn o'n cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl yn yr ardal yma o Gymru, a sut gall y partneriaid gyd-weithio i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

DAETH DEDDF LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL [CYMRU] I  
RYM AR Y 1<sup>AF</sup> O EBRILL  
2016. PWRPAS Y DDEDDF  
YW GWELLA LLES  
**CYMDEITHASOL,  
ECONOMAIDD,  
AMGYLCHEDDOL  
A DIWYLLIANNOL  
CYMRU.**

**DYMA'R WYBODAETH  
RYDYM WEDI EI  
GASGLU AR ARDAL  
CAERNARFON, SY'N  
CYNWYS DYFFRYN  
NANTLLE, LLANBERIS A  
BETHEL. YDYCH CHI'N  
ADNABOD Y DARLUN  
SYDD WEDI EI GREU  
O'CH ARDAL CHI?**



# PWY YW POBL ARDAL CAERNARFON?

Mae **32,647** o bobl yn byw yn ardal Caernarfon. Mae hyn tua 27% o gyfanswm poblogaeth Gwynedd.

Mae poblogaeth ardal Caernarfon wedi tyfu – **15%** o gynnydd rhwng 1981 a 2011. Mae'r cynnydd yma yn debyg i'r twf sydd wedi bod ym mhoblogaeth Gwynedd.

Mae patrwm oedran poblogaeth yr ardal yn weddol debyg i weddill y sir ond mae ychydig mwy o blant dan 15 oed yn byw yma. Fodd bynnag mae dros 90% yn fwy o bobl dros 80 oed yn ardal Caernarfon erbyn hyn nag oedd 30 mlynedd yn ôl.

Mae poblogaeth Gwynedd yn tyfu ac mae disgwyl iddo barhau i dyfu dros y blynedd nesaf. Tua **123,100** o bobl sy'n byw yn y sir ar hyn o bryd, ond mae ffigyrau yn awgrymu y bydd yna tua **127,600** mewn deng mlynedd a tua **132,000** mewn ugain mlynedd.

Mae disgwyl i'r twf yma barhau mewn rhai grwpiau oedran yn fwy na'i gilydd. Mewn ugain mlynedd mae disgwyl y bydd tua 60% yn rhagor o bobl dros 80 oed yn byw yng Ngwynedd, ond dim ond 2% fydd y twf yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed.


## IAITH

Yn ôl cyfrifiad 2011 roedd **80%** o bobl ardal Caernarfon yn gallu siarad Cymraeg, y ganran uchaf o ardaloedd Gwynedd a Chymru. Mae'r ganran wedi gostwng o 5% yn ystod y deg mlynedd a'r hugain diwethaf. Mae'r gostyngiad yma yn is na Gwynedd gyfan, sydd wedi gweld y canran yn gostwng o 76% i 65% dros yr un cyfnod.


Yn ôl holiadur diweddar mae 85% o ddisgyblion ardal Caernarfon rhwng 7 ac 11 oed yn siarad Cymraeg ar fuarth yr ysgol yn aml neu bob amser. Dyma'r ganran uchaf o holl ardaloedd Gwynedd. Canran Gwynedd gyfan ydi 69%.

CYNNYDD  
60%  
OEDRAN  
80+

2036  
POBLOGAETH  
GWYNEDD  
132,000



2016  
POBLOGAETH  
GWYNEDD  
123,000



## PA MOR WYRDD YW'R ARDAL?


Mae cyfraddau ail-gylchu wedi codi yng Ngwynedd dros y 4 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae **59%** o wastraff trefol sy'n cael ei gasglu o dai, busnesau a chanolfannau ailgylchu yng Ngwynedd yn cael ei ailddenyddio neu ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau biowastraff sy'n cael eu compostio.

Mae **49%** o wastraff ardal Caernarfon ar cyffiniau yn cael ei ailgylchu – dyma'r isaf o ardaloedd Gwynedd.

Ôl-troed carbon – mae'r data yn dangos bod **79%** o gartrefi yn yr ardal yn berchen ar o leiaf un car neu fan, mae hyn yr un fath a'r ffigwr ar gyfer Gwynedd gyfan, ond 2% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer gweddill Cymru. Mae'r allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Gwynedd (**7.0kt CO<sub>2</sub>**) ychydig yn uwch na gweddill Cymru (**6.6kt CO<sub>2</sub>**) hefyd.

Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi lefel y môr godi sy'n cyfrannu at y risg o lifogydd. O ran ardal Caernarfon, mae gwybodaeth yn dangos bod y risg uchaf o lifogydd yn Y Felinheli a Chaernarfon, a gall effeithio ar tua **100** o gartrefi. Mae tua **600** eiddo o dan fgygythiad o lifogydd mewndirol gan afonydd yn yr ardal.

Mae sawl gwlyptir a chors yn ardal Caernarfon sydd, nid yn unig yn cyfrannu at reoli lefelau dŵr ac yn lleihau'r risg o lifogydd, ond hefyd yn storio carbon yn y tir ac yn lleihau allyriadau carbon.




## PA MOR LÂN YW'N STRYDOEDD?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus. Mae eu canfyddiadau nhw yn dangos nad oedd yr un stryd yn ardal Caernarfon yn cyrraedd graddfa A – sef stryd heb ddim ysbwriel arni o gwbl. Roedd **33%** o strydoedd gyda dim mwy na thri darn bach o sbwriel arnynt (Gradd B+) a **62%** ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff, gan eithrio rhai eitemau bach (Gradd B). Allan o Wynedd i gyd, roedd ardal Caernarfon yn un o ddwy yn unig a oedd â strydoedd Gradd C.



STRYDOEDD  
GRADD B+  
**33%**



## AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae tua 21 o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig oherwydd eu nodweddion biolegol neu ddaearegol bwysig yn yr ardal hon. Mae Cors y Wlad ger Bwlch Derwin o bwysigrwydd Ewropeaidd, ac yn cynnal rhywogaethau o fwsogl a gloynnod byw. Mae nifer o safleoedd eraill hefyd wedi eu dynodi o bwysigrwydd rhyngwladol am eu bod yn gynefinoedd unigryw ac yn gartref i rywogaethau prin fel yr ystlum pedol leiaf.

Mae Eryri yn warchodfa natur genedlaethol ac mae dros 100 o safleoedd bywyd gwyllt eraill sydd wedi cael eu dewis ar gyfer eu gwerth bioamrywiaeth arwyddocaol yn lleol.

Yn ardal Caernarfon mae dau fath o fôr gyda gwahanol ecosystemau sef Bae Caernarfon a'r Fenai. Mae'r Fenai o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd ei chynefinoedd morol ac mae gan Fae Caernarfon creigres fyw o gregyn gleision sy'n denu amrywiaeth o greaduriaid y môr.

Ym Morfa Dinlle yn ardal Caernarfon mae porfa frwynog – un o'r prin gytrefi bridio sydd ar ôl i'r gornchwigen. Yn Dinas Dinlle hefyd mae twyni tywod rhyngwladol bwysig ar gyfer ehedyddion sy'n nythu.

Mae traeth **Dinas Dinlle** wedi ei wobrwyo gyda **Baner Las** sydd yn golygu ei fod ymysg y safleoedd gorau yn fyd-eang.

# CYMDEITHASOL

## IECHYD DA?

Yn ardal Caernarfon mae tua **1,350** o gleifion i pob meddyg teulu. Mae hyn is na'r nifer ar gyfer Gwynedd sef **1,400** a Chymru gyfan sef **1,600**.

Bangor yw'r ysbyty fawr agosaf. Os ydych yn byw yn ardal cod post LL55 mae amser ymateb ambiwlans i alwadau ble mae bygythiad i fywyd yn **5:27 munud**. Ond mae cryn wahaniaeth yn yr amser aros ac os ydych yn byw yn ardal cod post LL54 mae'r amser ymateb yn debyg o fod yn **10:43 munud**.

Nid oes gwybodaeth benodol am iechyd poblogaeth ardal Caernarfon. Mae'r ystadegau sy'n cael eu cynnwys yn y llyfryn hwn ar gyfer Gwynedd i gyd – ond yn rhoi syniad o gyflwr a phatrymau o ran iechyd y sir.

Mae disgwyliad oes dyn adeg geni yng Ngwynedd yn 80 oed, tra bod disgwyliad oes merched adeg geni yn 83.5 oed.

Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes adeg geni merched a dynion, rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn ein cymunedau yn sylweddol is yng Ngwynedd na gweddill Cymru. I ferched yng Ngwynedd mae'r bwlch yn **1.4 blwyddyn** o'i gymharu â 7.3 blwyddyn ar lefel Gymreig, a **3.1 blwyddyn** i ddynion o'i gymharu â 8.9.


Mae 52% o oedolion Gwynedd dros bwysau neu yn ordew – mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sy'n 58%.

Mae 30% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew – sy'n uwch na ffigwr Cymru o 26%.

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmegu ac yfed alcohol. Mae **22%** o bobl 16 oed neu'n hŷn yn dweud eu bod yn ysmegu, a **42%** o bobl yn yfed mwy na **5 gwydr bach o win**, neu tua 3 pheint o gwrw, ar y diwrnod yfed trymaf yr wythnos. Mae'r ddau ffigwr yma yn debyg iawn i weddill Cymru.

Mae cyfradd hunanladdiad yng Ngwynedd o 14.7 i bob 100,000 o'r boblogaeth y flwyddyn, yn uwch na'r cyfradd ar gyfer Cymru, sef 12.2.

Yng Ngwynedd, mae cyfradd beichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 24 fesul 1000 o ferched 15-17 oed. Mae hyn yn debyg i ffigyrau Cymru.



HYD OES



**22%**  
O BOBL DROS  
16 OED YN  
YSMYGU



## CADW'N DDIOGEL



Mae troseddau ardal Caernarfon fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi gostwng o **128.8** i **99.3** rhwng 2011 a 2015. Mae'r nifer o droseddau yng Ngwynedd wedi dod lawr bob blwyddyn hefyd o **119** i **92.1**.

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar i lawr ond yn dal yn cyfri am **39%** o'r holl droseddau yn yr ardal.

Mae **81%** o bobl yn credu ei bod yn saff i blant chwarae tu allan yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru ydi **64%**.

Yn ardal Caernarfon mae **116** o achosion tân ar gyfartaledd pob blwyddyn. Mae **22%** o'r achosion hynny wedi'u cychwyn yn fwriadol – yr un lefel â Gwynedd gyfan.

**116**  
ACHOS TÂN

**22%**  
YN FWRIADOL

## CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'r canran sydd â mynediad i fand-eang yn cynyddu yn flynyddol – erbyn hyn **3%** o eiddo yng Ngwynedd sydd heb fynediad o gwbl. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r **20%** yn 2011.

Mae **21%** o gartrefi yn ardal Caernarfon heb gar neu fan, sydd yr un fath â'r ffigwr ar gyfer gweddill Gwynedd.

Yn ôl data cenedlaethol, mae ardaloedd Llanllyfni, Clynnog a Waunfawr ymhlith y 10% o ardaloedd Cymru ble mae'n cymryd fwyaf o amser i deithio at wasanaethau fel fferyllfeydd, siopau bwyd a meddygfeydd.

Mae unigrwydd yn gyflwr sy'n effeithio ar bob oedran, ond mae pobl hyn yn fwy agored i risg. Yn ardal Caernarfon mae'n ymddangos bod risg uwch i bobl dros 65 fod yn unig yn ardaloedd Peblig a Seiont. Mae'r risg isaf i'w weld yn ardaloedd Groeslon, Waunfawr, Bethel a Chwm y Glo.

Yng Nghymru, mae Gwynedd ymysg y siroedd ble mae'r risg uchaf o unigrwydd.

## HELPU'N GILYDD

Mae **11%** o'r boblogaeth yn ardal Caernarfon yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Ngwynedd a Môn.

Mae **283** o bobl Gwynedd yn gwirfoddoli trwy'r **Ganolfan Gwirfoddolwyr**. Mae'r nifer go iawn sy'n gwirfoddoli trwy glybiau chwaraeon a chymdeithasau amrywiol yn llawer iawn uwch ond mae'n anodd mesur hyn.



# ECONOMI A GWAITH

O dan y mesur ar gyfer pa mor gryf a chynhyrchiol yw economi (sef Gwerth Ychwanegol Crynswth), mae economi Gwynedd yn gryfach nag economi Cymru ac ardaloedd eraill cyfagos fel Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych. Ond, mae economi'r holl ardaloedd hyn gan gynnwys Cymru gyfan yn wan o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol.


Mae **29%** o bobl sydd mewn gwaith, ond heb unrhyw gymhwyster yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Caernarfon e.e. gweithio mewn ffatri, glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm. Mae hyn yn debyg iawn i weddill Cymru.

O bobl Caernarfon, sydd heb unrhyw gymhwyster mae 48% yn economaidd anweithgar – mae hyn yn golygu ddim yn gweithio o gwbl am amrywiol resymau. Dyma'r ffigwr uchaf ymysg ardaloedd Gwynedd.

Mae'r **38%** o bobl Caernarfon sydd â gradd neu debyg yn gweithio mewn swyddi proffesiynol. Mae hyn yn debyg i weddill Gwynedd a Chymru.

Ar ei uchaf yn ystod y gaeaf y flwyddyn ddiwethaf roedd **2.68%** o bobl 16-64 oed Caernarfon yn hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith – nid yw'r canran sy'n hawlio'r lwfans yn gostwng o dan **2.43%**. Mae'r canran o bobl sy'n hawlio'r lwfans yng Nghaernarfon yr **uchaf** yng Ngwynedd. Ar unrhyw adeg, mae o leiaf **2.15%** o bobl 16-64 oed yng Nghymru gyfan, yn hawlio'r lwfans.

Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yng Ngwynedd yn is nag Ynys Môn a Chymru. Mae 62% o gwmnïau yng Ngwynedd yn aros mewn busnes am o dair blynedd neu fwy. Mae hyn ychydig yn uwch na Chymru sydd ar 60%. Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru gyfan.



# £386

## YW CANOLRIF CYFLOG WYTHNOS YR ARDAL

Y diwydiant amaeth, coedwigaeth a physgota yw'r sector mwyaf yn ardal Caernarfon, mae'n cyfri am **12%** o'r cyflogwyr – ond dyma'r ail isaf o ran y sector yma yng Ngwynedd.


O'r boblogaeth dros 16 oed sy'n gweithio, mae **13%** yn gweithio o adref yn ardal Caernarfon. Mae hyn ychydig yn uwch na Chymru sydd â **11%**, ond yn llai na'r **16%** ar gyfer Gwynedd. Mae bron i hanner y boblogaeth sy'n gweithio'n ardal Caernarfon yn teithio llai na chwe milltir i'r gwaith.

Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Arfon (y mae ardal Caernarfon yn rhan ohoni) tua **£386.30 yr wythnos**, sydd **10% yn uwch** na chanolrif cyflog drwy Wynedd gyfan (£347 yr wythnos), ac yn debyg iawn i weddill Cymru (£387 yr wythnos).

Mae cyflogau merched **38%** yn llai na chyflog dynion yn etholaeth Arfon. Mae'r bwlch yma'n uwch na'r bwlch ar draws Gwynedd, ble mae cyflogau merched **32%** yn llai na chyflog dynion.

# 62%

## O GWMNIAU MEWN BUSNES AM 3 BLYNEDD+




# SGILIAU AM OES

Mae **65%** o ddisgyblion ardal Caernarfon yn cael 5 **A\*** i **C** yn arholiadau TGAU mewn pynciau sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn uwch na pherfformiad Gwynedd (63%), ac yn sylweddol uwch na Chymru (58%).

O'r rhai sy'n cael 5 **A\*** i **C** yn eu TGAU (yn y pynciau sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg), mae bwlch mewn cyrhaeddiad o **32%** rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu. Mae hyn yn cymharu â bwlch o **36%** ar gyfer Gwynedd, ac yn debyg iawn i weddill Cymru.


O'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol – **1.8%** sydd ddim yn parhau â'u haddysg, ddim yn mynd ymlaen i hyfforddiant nac yn cael swyddi. Mae hyn yn is na'r ffigwr Cymreig o **2.8%**.

Mae gan chwarter poblogaeth ardal Caernarfon gymhwyster gradd neu debyg, a tua chwarter arall heb unrhyw gymhwyster. Mae'r tuedd yn debyg iawn yng Ngwynedd a Chymru.



# 65%

## GRADDAU A\*-C



# 25%

## GYDA GRADD

# YR ARIAN YN EICH POCED


Mae arian sydd ar gael i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref gan bobl yng Ngwynedd, yn **£14,640** y pen y flwyddyn, sy'n £662 yn llai na Chymru gyfan.

Yn yr ardal hon, mae **16%** o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio pryddau ysgol am ddim, ac mae hyn ymysg yr uchaf yng Ngwynedd. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol uwchradd, mae'r ffigwr yn gostwng i 13%. Mae hyn yn is na chyfradd Gwynedd gyfan (14% cynradd; 13% uwchradd).

Tua **20%** o gartrefi yn ardal Caernarfon sydd mewn tlodi tanwydd. Mae hyn yn ganran sylweddol uwch na'r ffigwr Cymreig, sef **14%**.

O'r holl aelwydydd yn yr ardal, mae **6%** heb wres canolog, sydd ymysg yr isaf yng Ngwynedd, ond yn llawer uwch na'r ffigwr Cymru o **2%**.

Mae pris canolrif eiddo yn ardal Caernarfon yn **£130,000**, sydd yr ail isaf yng Ngwynedd. Yn yr ardal yma mae canolrif incwm aelwydydd yn **£24,000**, ond mae angen **£29,000** i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Felly mae hyn yn golygu bod **58%** o aelwydydd Caernarfon wedi eu prisio allan o'r farchnad – o gymharu â **60%** yng Ngwynedd a 59% trwy Gymru.





# CADW'N HEINI

Dim ond ffigyrau ar lefel Gwynedd sydd ar gael ar gyfer chwaraeon. Rydym yn gwybod bod **53%** o ddisgyblion Gwynedd yn ymweld â chanolfannau hamdden, sy'n uwch na lefel Cymru o **42%**. Mae 51.6% o blant Gwynedd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos – mae hyn yn cymharu â 48% yng Nghymru.

Mae **37%** o oedolion yn dweud eu bod yn actif am o **leiaf 30 munud** ar bump neu fwy achlysur mewn wythnos – mae hyn yn uwch na'r 31% yng Nghymru. Mae'r canran wedi codi yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf.

# 47%

**O LYFRAU  
PLANT WEDI EU  
BENTHYG YN  
RHAI CYMRAEG**



# 37%

**O OEDOLION YN  
CADW'N ACTIF AM  
O LEIAF 30 MUNUD  
5 GWAITH YR  
WYTHNOS**

# AMSER HAMDDEN

Mae pobl Caernarfon yn benthg mwy o lyfrau o lyfrgelloedd ar y cyfan na llawer o ardaloedd eraill o Wynedd. Ar gyfartaledd mae **4.1 llyfr** wedi eu benthg fesul pen o'r boblogaeth yn yr ardal.

O'r llyfrau ar gyfer plant sydd wedi eu benthg, mae **47%** ohonynt yn lyfrau Cymraeg, sydd yn uwch na lefel Gwynedd o **39%**.

Mae **62%** o oedolion yng Ngwynedd yn dweud eu bod wedi mynd i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn, a **35%** wedi ymweld ag amgueddfa. Mae dros hanner pobl y sir wedi ymweld â llyfyrdd hanesyddol sy'n debyg i'r ffigwr ar gyfer Môn a gweddill Chymru.

**AM FWY O  
WYBODAETH...**

**WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG  
01766 771000**

Gofynnwch am  
Rheolwr Partneriaeth Gwynedd a Môn

